**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig 2025**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Etholiadau ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig 2025. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Jayne Bryant AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
04 Chwefror 2025

## RHAN 1

## 1. Disgrifiad

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer dyletswydd Gweinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig o dan adran 26 o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 ("Deddf 2024").

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r trefniadau a'r manylion ynghylch darparu'r platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig a fydd yn darparu gwybodaeth gyfredol, neu fynediad at wybodaeth gyfredol o ffynonellau electronig eraill, i etholwyr er mwyn eu cefnogi i gymryd rhan yn etholiadau Senedd Cymru ac etholiadau cyffredin i brif gynghorau yng Nghymru.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

3. Mae'r Rheoliadau hyn yn galluogi'r gwaith angenrheidiol i sefydlu'r platfform mewn pryd ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2026. Mae nifer o ddarpariaethau yn cyfeirio at 'orchymyn o dan adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006'. Mae'r troednodiadau i'r cyfeiriadau hynny yn rhoi cymorth drwy gyfeirio at y gorchymyn perthnasol ar yr adeg y gwneir y rheoliadau, sef Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 ("Gorchymyn 2007") ynghyd â'r erthygl berthnasol. Ar adeg ysgrifennu, mae gorchymyn diwygiedig newydd 2007 yn cael ei ddrafftio ac yn destun ymgynghoriad. Erbyn y bydd y platfform yn weithredol, mae'n debygol felly nad Gorchymyn 2007 fydd y gorchymyn perthnasol i gyfeirio ato. Y bwriad yw diwygio'r Rheoliadau hyn unwaith y bydd y Gorchymyn newydd wedi'i wneud i gyfeirio at union ddarpariaethau'r gorchymyn diwygiedig hwnnw.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

4. Mae adran 26(1) o Ddeddf 2024 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru drwy reoliadau sefydlu a gweithredu platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig i gefnogi etholwyr i gymryd rhan mewn etholiadau Cymreig, sef etholiadau Senedd Cymru ac etholiadau cynghorau sir a bwrdeistrefi sirol yng Nghymru. Mae hefyd yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch yr wybodaeth y dylid ei chynnwys ar y platfform mewn perthynas ag etholiadau cynghorau cymuned ac etholiadau maerol yng Nghymru.

5. Fel sy'n ofynnol gan adran 26(7), mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn gadarnhaol oherwydd eu bod yn cynnwys darpariaeth sy'n rhoi'r esemptiad rhag atebolrwydd sifil a throseddol mewn cysylltiad â chyhoeddi datganiadau ymgeiswyr a gwybodaeth arall am ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol cofrestredig.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

6. Diben y ddeddfwriaeth hon yw creu a chynnal platfform a rhoi swyddogaethau i weithredwr y platfform i ddarparu'r platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig. Mae'r Rheoliadau hyn yn penodi'r Bwrdd Rheoli Etholiadol ("BRhE") i fod yn weithredwr y platfform ac yn rhoi amrywiol swyddogaethau i'w alluogi i sefydlu a gweithredu'r platfform.

7. Gwnaeth Gweinidogion Cymru fwrw ymlaen â chynigion deddfwriaethol sylfaenol, drwy Ddeddf 2024, i wella'r ddarpariaeth o wybodaeth i gefnogi etholwyr. Y bwriad, fel y nodir yn y Rheoliadau hyn, yw i'r BRhE ddarparu platfform gwybodaeth i ddarparu gwybodaeth gyfoes i etholwyr, neu fynediad at wybodaeth gyfredol o ffynonellau electronig eraill, am etholiadau cyffredin Senedd Cymru, ac etholiadau prif awdurdodau lleol yng Nghymru.

8. Bwriad polisi cyffredinol y platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig yw gwella'r wybodaeth sydd ar gael i bleidleiswyr a sicrhau bod yr wybodaeth honno'n hygyrch er mwyn i ddinasyddion Cymru gynyddu eu dealltwriaeth, eu hymwybyddiaeth a'u hyder i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. Gall y platfform gynnwys gwybodaeth i helpu etholwyr i ddeall y broses ddatganoli o ran etholiadau Cymreig, gan gynnwys y gwahaniaeth rhwng etholiadau sydd wedi'u datganoli a'r rhai a gadwyd yn ôl.

9. Rhaid i'r platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig gynnal gwybodaeth am ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol cofrestredig, a gwybodaeth a gyhoeddir gan swyddogion canlyniadau fel mater o drefn neu wybodaeth y mae'n ddyletswydd arnynt i'w chyhoeddi, yn ogystal â gwybodaeth yn ymwneud â threfniadau hygyrchedd mewn gorsafoedd pleidleisio. Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu i'r BRhE ddefnyddio ei ddisgresiwn i gyhoeddi gwybodaeth arall, neu i gyfeirio ati, a allai gynorthwyo etholwyr yn ystod etholiad, gan nodi'r hyn y caiff ei gynnwys.

10. Mae'r Rheoliadau yn pennu bod yr wybodaeth ar y platfform yn hawdd ei defnyddio ac yn hygyrch i bob etholwr. Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r BRhE gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y platfform yn ddiogel yn gyffredinol ac yn hawdd ei ddefnyddio. O ran mynediad, dylai'r wybodaeth a gyhoeddir ar y platfform fod yn chwiliadwy, pan fo'n berthnasol, yn ôl cod post, etholaeth neu ward etholiadol.

11. Mae'r Rheoliadau yn nodi y bydd y BRhE yn darparu canllawiau i weinyddwyr etholiadol, ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol cofrestredig sy'n ymwneud â dogfennau y cânt eu hanfon at weithredwr y platfform a fformat yr wybodaeth y caniateir ei harddangos ar y platfform. Gallai'r canllawiau gyfeirio at ofynion rheoliadol eraill a all fod o gymorth wrth gwblhau anerchiadau etholiadol a datganiadau ymgeiswyr megis gofynion sy'n ymwneud ag argraffnodau digidol. Bydd y canllawiau yn ategu datblygiad a darpariaeth y platfform, gwella'r llif gwybodaeth a sicrhau prosesau symlach a ddylai leihau'r baich ar weinyddwyr etholiadol a gweithredwr y platfform.

12. Mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â dewisiadau sydd ar gael i etholwyr ar y papur pleidleisio. Ar gyfer etholiadau Senedd Cymru bydd hyn ar ffurf anerchiad etholiadol, ac ar gyfer etholiadau prif awdurdodau lleol bydd hyn ar ffurf datganiad ymgeisydd.

13. Ar gyfer etholiadau Senedd Cymru, caiff ymgeiswyr unigol neu blaid wleidyddol gofrestredig sydd wedi cyflwyno rhestr o ymgeiswyr ddarparu anerchiad etholiadol i weithredwr y platfform i'w gyhoeddi ar y platfform. Mae anerchiad etholiadol yn golygu copi o'r ddogfen gyfathrebu drwy'r post am ddim fel y cymeradwywyd gan y darparwr gwasanaeth cyffredinol (y Post Brenhinol). Dim ond os yw'r rheolau a nodir yn y Rheoliadau yn cael eu bodloni y bydd yr anerchiad etholiadol yn cael ei gyhoeddi. Mae gan blaid wleidyddol gofrestredig neu ymgeisydd annibynnol, o dan y gorchymyn cynnal etholiadau, yr hawl i anfon un anerchiad etholiadol am bob etholaeth.

14. Ar gyfer etholiadau prif awdurdodau lleol, gall ymgeiswyr neu asiant etholiad ymgeisydd gyflwyno datganiad ymgeisydd i weithredwr y platfform i'w gyhoeddi ar y platfform. Mae'r Rheoliadau yn diffinio datganiad ymgeisydd ac yn rhagnodi fformat a chynnwys y ddogfen.

15. Mae'r Rheoliadau yn nodi y bydd y broses gyflwyno yn cael ei darparu ar ei chyfer drwy hysbysiad ffurfiol a gyhoeddir ar y platfform gan weithredwr y platfform. Bydd yr hysbysiad yn rhoi arweiniad clir i ymgeiswyr, eu hasiantau a phleidiau gwleidyddol cofrestredig ynghylch sut i ddefnyddio unrhyw system sydd yn ei lle, gan nodi'n glir yr amserlenni a'r prosesau cyflwyno i'w hystyried.

16. Mae'r Rheoliadau yn nodi mai'r ymgeisydd/ymgeiswyr neu asiant etholiad yr ymgeiswyr fydd yn gyfrifol ac a fydd yn ysgwyddo unrhyw atebolrwydd sifil neu droseddol ar gyfer cyhoeddi cynnwys anerchiad etholiadol neu ddatganiad ymgeisydd ar y platfform.

17. Mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth ar gyfer adroddiad gan Weinidogion Cymru ar y swyddogaethau a arferir mewn perthynas â'r platfform. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth a ddarperir gan weithredwr y platfform a fydd yn ymwneud â sut y sefydlwyd y

platfform, a manylion yn ymwneud â threfniadau gweithredol megis y defnydd a wneir o'r platfform, sut y caiff ei hyrwyddo a pha mor hygyrch ydyw.

## 5. Ymgynghori

*Ymgynghoriad ffurfiol*

18. Er nad ymgynghorwyd ar y Rheoliadau hyn yn ffurfiol, ymgynghorwyd yn ffurfiol ar y cynigion polisi a'r darpariaethau ynghylch platfform gwybodaeth i bleidleiswyr drwy'r [Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar weinyddu a diwygio etholiadol]().

19. Cafodd darpariaethau sy'n ymwneud â datganiadau ymgeiswyr eu cynnwys yn y Rheolau drafft Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 a oedd yn destun ymgynghoriad ffurfiol ymhlith y gymuned etholiadol. Roedd yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad yn dangos bod nifer eang o blaid y datganiadau mewn egwyddor, ond codwyd pryderon am y beichiau gweinyddol a chyfreithiol ar gyfer Swyddogion Canlyniadau pe bai'n rhaid iddynt gyflawni'r swyddogaeth. Mae cyflwyno datganiadau drwy gorff annibynnol fel y BRhE yn mynd i'r afael â'r pryderon sylweddol a godwyd.

20. Gan fod darpariaeth ar gyfer y polisi hwn yn Neddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024, roedd y darpariaethau yn destun craffu deddfwriaethol sylfaenol y Senedd a oedd yn cynnwys gwaith craffu gan Bwyllgorau a chan y Senedd lawn.

*Ymgynghoriad anffurfiol*

21. Cyhoeddwyd fframwaith drafft ar gyfer y platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig i randdeiliaid allweddol. Cafodd y fframwaith ei lywio drwy werthuso'r ymatebion i'r ymgynghoriad, a'r dystiolaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid yn y pwyllgor. Gofynnwyd i'r rhanddeiliaid adolygu'r fframwaith ac ystyried a oedd yn adlewyrchu'n gywir yr hyn yr oeddent wedi'i ddweud wrthym, ac anghenion y cymunedau y maent yn eu cynrychioli. Mae'r adborth o'r ymarfer hwn wedi bwydo datblygiad y Rheoliadau hyn.

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

## 6. Costau a manteision

Mae Deddf 2024 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig. Nid oes platfform o'r fath yn bodoli ar hyn o bryd ac felly nid yw busnes fel arfer yn opsiwn.

Wrth ddrafftio'r Rheoliadau hyn, mae swyddogion wedi mynd ati i ddarparu'r sylfeini ar gyfer cynnyrch sylfaenol hyfyw. Gwnaed hyn er mwyn cadw'r costau mor isel â phosibl gan barhau i ddarparu adnodd a fydd yn addas i'r diben ac yn goresgyn rhwystrau hysbys sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth adeg etholiad.

*Costau*

22. Mae'r costau yn debygol o ddod dan y categorïau a ganlyn:

    a) Capasiti/adnodd o fewn y BRhE. Bydd angen i adnoddau yn y Comisiwn ddarparu ar gyfer rheolwr contract/cynnwys (SEO cyfwerth ag amser llawn ar £66,364 cost gros cyfartalog blynyddol), a dadansoddwr busnes (G7 cyfwerth ag amser llawn ar £86,731 cost gros cyfartalog blynyddol). Rhagwelir y bydd y staff hyn hefyd yn darparu cymorth caffael. Mae'n debygol y bydd yr adnoddau a ddefnyddir gan y BRhE yn cael eu defnyddio ar gyfer gwaith yn ogystal â'r platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig. Bydd hyn yn cydbwyso yn erbyn capasiti staff eraill sydd ei angen i ddarparu'r platfform, fel gweinyddu a chyfathrebu.

    b) Cost darparwr gwasanaeth trydydd parti i ddylunio ac adeiladu'r platfform gwybodaeth i bleidleiswyr. Bydd y gost yn amrywio yn dibynnu ar ddyluniad y platfform ond ar sail ymarfer ymgysylltu ymlaen llaw â'r farchnad, rydym yn amcangyfrif cost sefydlu gychwynnol o £750,000 i £1m, a fydd yn cael ei hysgwyddo yn 2025-26. Bydd cost flynyddol o £80,000 i £110,000 ar gyfer cynnal a chadw a datblygu yn dechrau yn 2026-27. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, rydym wedi mabwysiadu dull ceidwadol a thybir y bydd y costau ym mhen uchaf yr ystodau hyn.

23. Mae costau ychwanegol y gellid eu hwynebu wrth i'r platfform ddatblygu a cheisio ymgorffori data sy'n cael ei gyhoeddi'n rheolaidd ac sy'n cael ei gadw ar hyn o bryd yn y System Rheoli Etholiadol (EMS). Mae cael meddalwedd EMS i siarad â'r platfform fel ei fod yn gallu cyfuno data ledled Cymru i'w gyflwyno i etholwyr yn debygol o olygu bod angen adeiladu API (Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau) a fydd yn darparu pont rhwng yr EMS a'r platfform gwybodaeth i bleidleiswyr. Mae'n anodd amcangyfrif yn gywir y gost o ddatblygu API gan y bydd hyn yn dibynnu ar sawl ffactor (e.e. cymhlethdod). Nid yw'n bosibl cyfrifo'r costau hyn. Fodd bynnag, yn 2020-21 talwyd tua £1.6 miliwn i ddarparwyr EMS i

gefnogi'r newidiadau gofynnol i systemau ar ôl ymestyn yr etholfraint. Darparwyd y ffigur hwn at ddibenion dangosol yn unig, nid yw'r gwir gostau yn hysbys ar hyn o bryd ac ni ellir eu hamcangyfrif oherwydd natur arbenigol y gwaith hwn a sensitifrwydd masnachol.

*Manteision*

24. Bydd y platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig yn darparu gwybodaeth i etholwyr yn etholiadau'r Senedd, gan ganiatáu iddynt gael gafael ar wybodaeth yn ddigidol ac nid mewn print copi caled yn unig. Bydd hyn yn helpu i wella ymgysylltiad mewn etholiadau drwy gydnabod bod gwahanol grwpiau yn cael gafael ar wybodaeth drwy wahanol ddulliau. Ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, bydd platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig yn darparu platfform am ddim i ymgeiswyr gyfathrebu â'r etholaeth yn ddigidol drwy ddatganiadau ymgeiswyr. Bydd gohebiaeth copi caled yn parhau i ddilyn y drefn bresennol pan fo ymgeiswyr a phleidiau yn rhydd i gyfathrebu â'r etholwyr ond rhaid iddynt ddarparu'r cyllid ar gyfer hyn eu hunain. Mae hyn yn aml yn rhoi ymgeiswyr annibynnol dan anfantais ac yn cyfyngu ar yr wybodaeth sydd ar gael i etholwyr.

25. Bydd y platfform yn darparu un pwynt mynediad i etholwyr sy'n dymuno deall yn well pwy sy'n sefyll mewn etholiad yn eu hetholaeth. Mae hyn yn cynnig manteision dros y system bresennol sy'n caniatáu i ymgeiswyr anfon un darn o ddeunydd etholiadol at bob etholwr cofrestredig am nifer o resymau, er enghraifft:

   - Mae deunydd etholiadol yn aml yn anhygyrch i bobl sydd ag amhariad ar eu golwg. Bydd platfform electronig yn caniatáu hygyrchedd gan ddefnyddio darllenwyr sgrin etc.
   - Gall deunydd etholiadol gael ei daflu gan y person ar yr aelwyd sydd fel arfer yn didoli'r post ac felly mae'n bosibl na fydd ar gael i etholwyr eraill ar yr aelwyd.

26. Gallai'r platfform gwybodaeth roi cyfle i etholwyr ddod o hyd i wybodaeth sy'n ymwneud nid yn unig ag ymgeiswyr sy'n sefyll, ond hefyd â gwybodaeth am fwrw eu pleidlais, y system etholiadol sy'n cael ei defnyddio etc. drwy gysylltu â ffynonellau dibynadwy eraill fel y bo'n briodol. Gallai hyn helpu i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau gwybodaeth. Mae gwahanol grwpiau mewn cymdeithas yn dewis ac yn ffafrio cael gafael ar wybodaeth drwy ddulliau gwahanol. Drwy ddarparu platfform gwybodaeth ar-lein i bleidleiswyr yn ogystal â'r deunydd etholiadol copi caled presennol, mae'n bosibl y gellid gwella ymgysylltiad mewn etholiadau.

27. Gallai platfform hygyrch sy'n darparu gwybodaeth ddibynadwy gyfredol sy'n ymwneud ag etholiadau helpu i leddfu'r baich ar dimau etholiadol awdurdodau lleol sy'n ateb cwestiynau cyffredin dro ar ôl tro yn y cyfnod

cyn etholiad.

28. Cafodd y polisi gwybodaeth am etholiadau Cymreig ei ystyried mewn asesiadau effaith perthnasol eraill a gynhaliwyd fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Ddeddf.

## 7. Asesu'r Gystadleuaeth

29. Nid yw asesiad o'r gystadleuaeth yn gymwys o dan yr amgylchiadau hyn.

## 8. Adolygu ar ôl gweithredu

30. Mae'r Rheoliadau hyn yn amlinellu'r gofyniad i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad ynghylch sut y cafodd y platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig ei sefydlu a'i weithredu. Bydd yr adroddiad yn tynnu ar wybodaeth a ddarperir gan y gweithredwr sy'n ymwneud â datblygu a gweithredu, defnydd gan ddarparwyr gwybodaeth (awdurdodau lleol, ymgeiswyr a'u hasiantau) ac etholwyr, a sut mae'r gweithredwr ac eraill yn y gymuned etholiadol wedi hyrwyddo'r platfform.

31. Y bwriad yw y bydd yr wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiadau hyn yn helpu i werthuso ei effeithiolrwydd ac yn llywio ei ddatblygiad yn y dyfodol.